RHEOLAU RYGBI TAG MERCHED YR URDD

Oedran: Blwyddyn 5 a 6 (Caniateir blwyddyn 4 i gymryd rhan gyda chaniatâd rhiant)

Manylion Tîm:
Saith bob ochr gydag uchafswm o 5 eilydd.
Mae Undeb Rygbi Cymru yn mynnu bod y ddau dîm yn rhoi'r un faint o chwaraewyr ar y cae bob amser.

Trefn Chwarae:
Dwy hanner hyd at 10 munud o amser chwarae – uchafswm o 20 munud.

Arwynebedd Cae:
50m (hyd) x 40m (lled) ar y mwyaf.
40m (hyd) x 30m (lled) ar y lleiaf.

Maint Pêl: 3

Ni chaniateir cicio.
Ni fydd tafliad o'r llinell**,** yn hytrach bydd pas o 5 medr tu fewn i'r llinell adlam. Ni fydd sgrymio.

RHEOLAU TAG:

- Gêm i gychwyn gyda phas rydd
- Tîm sy'n ildio cais i ail-gychwyn y gêm
- 6 tag, yna troi'r meddiant drosodd i'r gwrthwynebwyr
- Rhaid i'r chwaraewr wedi ei dagio basio'r bêl o fewn 3 eiliad o gael ei dagio
- Rhaid i'r taclwr ddychwelyd y tag i'r ymosodwr cyn parhau â'r chwarae. Bydd troseddu'n barhaol yn cael ei gosbi.
- Rhaid gadael a chamu ar y cae wrth y llinell hanner
- Rhaid tynnu dau dag a'u rhoi i'r eilydd sy'n dod ar y maes i'w gosod uwchben y gwregys cyn iddo/hi gael effaith
- Rhaid i'r eilyddion wisgo gwregys heb y tagiau
- Rhaid i chwaraewr gael dau dag cyn sgorio cais, ond os caiff tag ei dynnu wrth sgorio, caniateir y cais.
- Os bydd chwaraewr yn croesi'r llinell gydag un tag, bydd yn cael ei dynnu/thynnu'n ôl 5 medr o'r llinell gais gyda chyfri'r tag yn parhau.
- Rhaid aros ar y traed wrth sgorio cais
- Caniateir troelli oddi wrth gysylltiad gyda thaclwr
- Ni chaniateir '*hand-off*'
- Pas rydd am bob cosb (*penalty)*
- Anogir cydio yn y bêl gyda dwy law, ond nid yw'n reol rygbi tag.